

Sul Addysg

Darllen: Marc 10:13–16

Braint pob rhiant yw cael cyfle i garu fel y mae Salm 127:3 yn mynnu, ‘Wele, etifeddiaeth oddi wrth yr Arglwydd yw meibion, a gwobr yw ffrwyth y groth’. Mae’r rhan fwyaf o’r golygfeydd llawen a hapus yn y Beibl yn crynhoi o gwmpas mamau sydd wedi rhoi genedigaeth i’w plentyn cyntaf. Meddai Sara, gwraig Abraham, ar ôl i’w mab Isaac gael ei eni, ‘Ai wedi imi heneiddio, a’ m gŵr hefyd yn hen, y caf hyfrydwch?’ (Genesis 18:12). Wedi geni ei mab Samuel, meddai Hanna, ‘Gorfoleddodd fy nghalon yn yr Arglwydd’ (1 Samuel 2:1). A phan roddodd Ruth enedigaeth i’w phlentyn, meddai’r bobl a ddaeth at Naomi, ei mam yng nghyfraith a oedd wedi dioddef yn arw, ‘Bendigedig fyddo’r Arglwydd am iddo beidio â’th adael heddiw heb berthynas’ (Ruth 4:14). Byddai ei hŵyr ‘yn enwog yn Israel’, ond yn bwysicach na hynny i Naomi, ‘Bydd ef yn adnewyddu dy fywyd ac yn dy gynnal yn dy henaint’ (Ruth 4:15). Felly, yng nghyfnod yr Hen Destament – fel heddiw – roedd genedigaeth nid yn unig yn llawenydd i’r rhieni a’r teulu ond hefyd yn ddathliad cymunedol. Rydyn ni i gyd yn cael ein gwfreiddio gan enedigaeth plentyn gan fod pob genedigaeth yn brawf o’r cariad sy’n dod â bywyd newydd i’r byd. Dyna pryd y daw cariad dynol yn agos at gariad Duw, a ddaeth â ni a’r bydysawd i fodolaeth.

Yr unig adnod yn yr holl Feibl sy’n esbonio pam y dewisodd Duw Abraham yn sylfaenydd y cyfamod newydd yw, ‘Fe’i hysbysaf, er mwyn iddo orchymyn i’w blant a’i dylwyth ar ei ôl gadw ffordd yr Arglwydd a gwneud cyfiawnder a barn’ (Genesis 18:19). Dewiswyd Abraham a Sara’n benodol am eu bod yn rhieni ffyddlon ac am fod gan Dduw ffydd ynddyn nhw, y bydden nhw’n dod yn fodolau ar gyfer y cenedlaethau i ddod wrth iddyn nhw fyw’r egwyddorion aruchel o gyfiawnder a barn.

Soniodd Moses hefyd am ddyletswydd rhieni i addysgu eu plant, a gwelai’r proffwyd Eseia gyfnod yn dod pan fyddai’r plant yn cael eu haddysgu gan

Dduw ac y byddai heddwch ar eu plant. Mae'n adrodd addewid Duw, 'Bydd fy ysbryd i arnat, a gosodaf fy ngeiriau yn dy enau; nid ymadawant oddi wrthyt nac oddi wrth dy blant, na phlant dy blant, o'r pryd hwn hyd byth' (Eseia 59:21). Mae rhieni yn addysgwyr rhagorol sydd wedi eu galw i dasg benodol a sanctaidd. Mae pob plentyn sy'n cael ei genhedlu mewn cariad yn dystiolaeth o ffydd yn y dyfodol, adnewyddiad dynol a bywyd ynddo'i hunan.

Rhoddodd Iesu le amlwg i'r plentyn yn ystod ei weinidogaeth. Derbyniodd blant er bod ei ddisgyblion wedi ceryddu rhieni am ddod â hwy ato. Fe'i bendithiodd a'u gwneud yn fodelau i'r oedolion. Mae'n rhaid, meddai Iesu, i ni fod fel plant er mwyn cael mynediad i'r deyrnas.

Atgoffwn ein hunain o'n cyfrifoldeb ar Sul Addysg, ond yn fwy na hynny cofiwn am y fraint a ddaw i rieni - yr anrhydedd o gydweithio â Duw yn y broses o fagu a meithrin y plentyn, a thrwy hynny baratoi ar gyfer y dyfodol.

Myfyrdod pellach:

Ydi plant yn cael lle amlwg ar eich aelwyd?

Beth am aelwyd eich eglwys? Ydych chi'n eu meithrin yn y Ffydd Gristnogol? Beth yn union yw ystyr hynny?